



Dyddiad creu: 06/09/2018
Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2023
Rhif y fersiwn: 1.01

Maes Gwasanaeth:	Gwasanaethau Corfforaethol
Maes Gwaith:	Gwasanaethau Caffael
Manylion Cyswllt:	01443 863161 caffael@caerffili.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Hysbysiad Preifatrwydd Caffael
Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd y Gwasanaethau Caffael yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei darparu gan weithredwyr economaidd trydydd parti (er enghraifft busnesau, contractwyr, cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a sefydliadau'r sector gwirfoddol), unigolion neu sefydliadau'r sector cyhoeddus eraill wrth ymgymryd â dyletswyddau dyddiol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth Caffael.

Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi

Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

Categoriâu o ddata personol sy'n cael eu casglu

Bydd y Gwasanaethau Caffael yn cael gwybodaeth (a all gynnwys data personol) mewn perthynas â'r categorïau canlynol wrth ymgymryd â dyletswyddau dyddiol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth Caffael.

Enw/enwau'r sefydliad
Enw/enwau personol
Cyfeiriadau busnes
Cyfeiriadau personol
Enw/enwau cyswllt dynodedig
Rhif/rhifau ffôn cyswllt (sefydliad/preifat)
Cyfeiriadau e-bost (sefydliad/preifat)
Gwybodaeth ariannol (sefydliad/preifat)
Gwybodaeth gyfreithiol (sefydliad/preifat)

Ffynhonnell y data personol

Bydd angen i bob gweithredwr economaidd, unigolyn neu sefydliad arall yn y sector cyhoeddus ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â'r categorïau uchod drwy wahanol ddulliau cyfathrebu fel y'u nodir gan y Gwasanaethau Caffael.

Cyflwynir yr wybodaeth hon yn bennaf drwy fodiwlau prynu-i-dalu (P2P), e-dendro a rheoli contractau, a ddarperir gan ddarparwr system trydydd parti, sef Proactis. Bydd gweithredwyr economaidd, unigolion a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â'r categorïau uchod naill ai ar-lein drwy'r modiwlau e-dendro a rheoli contractau neu drwy ddulliau cyfathrebu eraill a fydd yn cael eu storio o fewn P2P.

Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth chi

Diben y gwaith prosesu

Er mwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau bod unrhyw waith caffael sy'n cael ei wneud gan y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaeth gyfreithiol mewn perthynas â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig 2015 a'i Gyfansoddiad, yn benodol Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau.

Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, sydd wedi'i amlinellu isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1(b) processing is necessary for the performance of a contract to which the data subject is party or in order to take steps at the request of the data subject prior to entering into a contract.

Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth chi?

Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth chi yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Y Gwasanaethau Caffael fydd prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth chi.

Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth chi o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Gall y Gwasanaethau Caffael ddefnyddio neu rannu gwybodaeth â rhannau eraill o'r Cyngor wrth ymgymryd â dyletswyddau dyddiol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth Caffael. Enghreifftiau yw meysydd gwasanaeth unigol sy'n cymryd rhan mewn prosesau gwerthuso, angen gwybodaeth ar gyfer rheoli contractau parhaus a/neu wybodaeth ar gyfer gwneud archebion prynu swyddogol.

Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Gall y Gwasanaethau Caffael ddefnyddio neu rannu gwybodaeth wrth weithio ar y cyd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Yn yr amgylchiadau hyn, dim ond gwybodaeth benodol a fydd yn cael ei rhannu â'r sefydliadau perthnasol hynny. Bydd yr holl ddogfennau Caffael sy'n gysylltiedig â phrosesau cydweithredol yn nodi pa sefydliadau sy'n cymryd rhan a sut y bydd y broses yn cael ei gweinyddu. Felly, bydd gweithredwyr economaidd, unigolion a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn ymwybodol y bydd gwybodaeth benodol yn cael ei rhannu ar draws y sefydliadau sy'n cymryd rhan.

Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol

Modiwlau e-dendro a rheoli contractau sy'n cael eu darparu gan ddarparwr system trydydd parti, sef Proactis. Mae'r Hysbysiad Preifatwydd Proactis ar gael drwy'r ddolen ganlynol: www.proactis.com/uk/policies/privacy-policy

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth wedi'i darparu gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth chi, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y deddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth chi?

Manylion am y cyfnod cadw

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Yn dibynnu ar werth contract penodol neu'r math o gontract a ddyfernir (gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau) bydd yr amser yn amrywio. Cyfeiriwch at yr amserlen ddangosol ganlynol:

Contractau Nwyddau/Gwasanaethau dros £1 miliwn (noder mai sterling yw hyn nid ewro)	12 mlynedd ar ôl Cwblhau'r Contract
Cytundebau Dan Sêl a Chontractau Gwaith (gan gynnwys y rhai wedi'u llofnodi gan y Cyngor fel Gweithred)	12 mlynedd ar ôl Cwblhau'r Contract
Contractau a Ariennir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru/grant a cheisiadau aflwyddiannus	Yn unol â thelerau ac amodau penodol y cyllid (DS – Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hyd nes y dywedir i'w dinistrio)
Pob Contract arall	6 blynedd ar ôl Cwblhau'r Contract
Ceisiadau Aflwyddiannus.	4 blynedd ar ôl Dyfarnnu'r Contract

Bydd yr holl ddata sy'n cael eu cadw ar ôl yr amser penodedig yn cael eu dinistrio/eu dileu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Bydd gwybodaeth am ba mor hir y bydd y data'n cael eu cadw yn cael ei chynnwys yn y broses dendro.

Eich hawliau chi (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

Eich hawliau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdany'n nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan ni: [Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun \(SAR\)](#)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau chi ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau chi, cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ffurflen hon.

Y Weithdrefn Gwyno

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth chi, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion chi.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi

Rydyn ni'n casglu eich gwybodaeth chi er mwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau bod unrhyw waith caffael sy'n cael ei wneud gan y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaeth gyfreithiol mewn perthynas â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig 2015 a'i Gyfansoddiad, yn benodol Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau. Rydwn ni'n dibynnu ar y sail gyfreithiol 'contract' fel y nodir yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig i brosesu eich gwybodaeth chi. Efallai y bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei rhannu ag awdurdodau cyhoeddus eraill pan fyddwn ni'n gweithio ar y cyd gyda nhw. Cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar y ddolen isod am wybodaeth am y cyfnod cadw.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth chi'n cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydwn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau chi, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

www.caerffili.gov.uk/caerphillydocs/foi/privacynotices/procurementprivacynotice_cy.aspx